# POLISI AWDURDODI FFILMIAU



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Awdur a gwasanaeth: David Lloyd Roberts,
Gwasanaethau Ffordd o Fyw
Dyddiad cymeradwywyd gan Cabinet: 17eg Hydref 2017
Asesiad Effaith Integredig: Oes
Dyddiad cyhoeddi: 17eg Hydref 2017
Dyddiad Adolygu Polisi: 17eg Hydref 2020

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Y Cyngor, fel yr Awdurdod Trwyddedu, yw'r awdurdod sy'n gyfrifol am awdurdodi arddangos ffilmiau'n gyhoeddus. Deddf Recordiadau Fideo 1984 a Deddf Trwyddedu 2003 yw'r ddeddfwriaeth allweddol sy'n rheoli arddangos ffilmiau. Yn ôl Adran 20 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (y Ddeddf), pan fydd Trwydded Safle neu Dystysgrif Safle Clwb yn awdurdodi arddangos ffilm(iau), rhaid i'r drwydded gynnwys amod yn gwneud hi'n ofynnol cyfyngu mynediad i blant i wylio ffilmiau'n unol â'r argymhellion a osodir un ai gan Fwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain (BBFC) neu gan yr Awdurdod Trwyddedu ei hun. Fel y cyfryw, rhaid cyfyngu mynediad i blant i wylio unrhyw ffilm(iau) yn unol ag:

- UN AI ddosbarthiad y BBFC;
- NEU pan nad yw'r ffilm wedi'i dosbarthu gan y BBFC, unrhyw argymhellion a wneir gan yr Awdurdod Trwyddedu.

1.2 Pan fydd safle'n awyddus i, neu'n bwriadu arddangos ffilm(iau) rhaid i'r lleoliad fod â Thrwydded Safle, Tystysgrif Safle Clwb, Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro, neu fod wedi'i eithrio dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Mae'r eithriad hwnnw'n golygu nad oes angen trwydded ar gyfer arddangos ffilm 'di-elw' a gynhelir ar safle cymunedol rhwng 08.00 a 23.00 ar unrhyw ddiwrnod, ar yr amod nad oes mwy na 500 yn y gynulleidfa a bod y trefnydd (a) yn cael caniatâd i ddangos y ffilm oddi wrth unigolyn sy'n gyfrifol am y safle; a (b) yn sicrhau bod pob ffilm a ddangosir yn cadw at y dosbarthiad oedran cywir. Ceir mwy o wybodaeth ym Mharagraff 16.22-16.24 o'r Arweiniad Cenedlaethol am yr hyn a olygir wrth 'di-elw' a'r trefniadau gweithredu mewn perthynas â pholisïau mynediad i blant. Mae paragraff 6 o'r polisi hwn yn rhoi sylw penodol i eithriadau eraill dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

1.3 Y diffiniad o blentyn yw unrhyw berson dan 18 oed.

1.4 Dan Ddeddf Trwyddedu 2003, y diffiniad o arddangos ffilm yw arddangos lluniau sy'n symud.

1.5 I grynhoi, rhaid i unrhyw ffilm a arddangosir ar safle trwyddedig fod un ai wedi'i dosbarthu gan y BBFC neu wedi'i hawdurdodi gan yr Awdurdod Trwyddedu dan bwerau Deddf Trwyddedu 2003, yn amodol ar yr eithriad a amlinellir ym mharagraff 1.2 o'r polisi hwn. Mae'n ofynnol bod unrhyw ffilmiau a arddangosir ar safleoedd sydd wedi'u heithrio hefyd yn cael eu dosbarthu gan y BBFC neu'u hawdurdodi gan yr Awdurdod Trwyddedu.

1.6 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu, wrth awdurdodi ffilm(iau) bob amser yn rhoi ystyriaeth i'r canllawiau a gyhoeddwyd dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003 y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel yr Arweiniad Cenedlaethol.

1.7 Gall yr Awdurdod Trwyddedu dderbyn cais i awdurdodi ffilm sydd eisoes wedi'i dosbarthu gan Fwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain (BBFC) dan ddau fath o amgylchiadau gwahanol:

a) gall dosbarthwr ffilm apelio yn erbyn penderfyniad y BBFC a gofyn bod yr Awdurdod Trwyddedu'n ail-ddosbarthu/awdurdodi'r ffilm i'w dangos yn lleol (gydag argymhellion ynghylch cyfyngiadau oedran); a

b) gall parti annibynnol ofyn i'r Awdurdod Trwyddedu i ail-ddosbarthu/ awdurdodi'r ffilm i'w dangos yn lleol (gydag argymhellion ynghylch cyfyngiadau oedran).êe

1.8 Yn ogystal, gall yr Awdurdod Trwyddedu dderbyn cais i awdurdodi arddangos ffilm(iau) sydd heb ei dosbarthu. Mae hyn fel arfer yn digwydd yn yr achosion canlynol:

- Gŵyl ffilmiau dros gyfnod amser penodol
- Dangos ffilm am un tro'n unig
- Rhaghysbyseb ar gyfer ffilm

1.9 Yn unol â pharagraff 10.31 o'r Arweiniad Cenedlaethol, ystyriaeth bennaf yr Awdurdod Trwyddedu fydd amddiffyn plant rhag niwed. Ni fydd yn defnyddio'i bwerau i sensro ffilmiau oni bai bod yna reswm pendant dros gredu bod angen gwneud hynny i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

1.10 Mewn perthynas â ffilmiau'n cael eu dangos ar safleoedd trwyddedig dan ddarpariaethau Deddf Trwyddedu 2003, rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu gyflawni'i swyddogaethau gyda'r bwriad o hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Yn nhermau arddangos ffilmiauu a gwyliau ffilmiau, yr amcan trwyddedu mwyaf perthnasol yw Amddiffyn Plant Rhag Niwed.

<u>Amddiffyn Plant Rhag Niwed</u>

1.11 Mae paragraff 2.41 o'r Arweiniad Cenedlaethol yn datgan:

*Mae amddiffyn plant rhag niwed yn cynnwys amddiffyn plant rhag niwed moesol, seicolegol a chorfforol, a byddai hyn yn cynnwys amddiffyn plant rhag dod i gysylltiad ag iaith fras a rhegfeydd rhywiol, er enghraifft, yng nghyd-destun arddangosfeydd ffilm neu lle darperir adloniant i oedolion.*

## 2 EGWYDDORION PENNU CEISIADAU

2.1 Mae Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain yn dosbarthu ffilmiau'n unol â'r Arweiniad a gyhoeddwyd ganddo, sy'n seiliedig ar ymchwil helaeth i farn gyhoeddus a chyngor proffesiynol. Mae'r Arweiniad Cenedlaethol dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003 yn argymell y canlynol:

*"Ni ddylai Awdurdodau Trwyddedu ddyblygu gwaith y BBFC trwy ddewis dosbarthu ffilmiau eu hunain. Y categorïau a argymhellir gan y BBFC ddylid eu defnyddio fel arfer oni bai bod Awdurdod Trwyddedu'n mabwysiadu'r rôl honno am resymau lleol da iawn. Dylai Awdurdodau Trwyddedu nodi bod darpariaethau Deddf 2003 yn eu galluogi i nodi enw'r Bwrdd yn y drwydded neu'r dystysgrif ac, mewn perthynas â ffilmiau unigol, hysbysu'r deiliad neu'r clwb y bydd yn gwneud argymhelliad ar gyfer y ffilm arbennig honno"*

2.2 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n ystyried bod y system ddosbarthu a ddefnyddir gan y BBFC yn un a deallir ac a dderbynnir yn genedlaethol. Mi fydd felly'n defnyddio'r system honno ac unrhyw welliannau iddi fel cyfeirbwynt wrth bennu'i argymhelliad/argymhellion mewn perthynas â chyfyngu mynediad i blant i'r ffilm(iau). Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw'r Awdurdod Trwyddedu'n gorfod dilyn yr arweiniad hwn.

2.3 Pan fydd safle am arddangos ffilm sydd heb ei dosbarthu gan y BBFC yna cyfrifoldeb yr Awdurdod Trwyddedu fydd awdurdodi'r ffilm honno. Os felly, dylid dilyn y drefn a amlinellir yn nes ymlaen yn y ddogfen hon.

2.4 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod yr egwyddor a geir yn Neddf Hawliau Dynol 1998 y dylai oedolion fod yn rhydd i ddewis eu hadloniant eu hunain. Ni ddylai'r deunydd dorri'r gyfraith droseddol, gan gynnwys deunydd y bernir ei fod yn anweddus dan y dehongliad presennol o Ddeddf Cyhoeddiadau Anweddus 1959, neu ddeunydd sydd wedi'i greu trwy gyflawni trosedd.

2.5 Dylai ymgeiswyr sicrhau bod yr holl ddeunydd sydd ynghlwm â'r cais yn cydymffurfio â'r dehongliad presennol o Ddeddf Cyhoeddiadau Anweddus 1959, Deddf Hawlfraint Dyluniadau a Phatentau 1988 neu unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall, ac nad yw wedi'i greu trwy gyflawni trosedd.

2.6 Bydd unrhyw awdurdodiad a roir gan yr Awdurdod Trwyddedu i arddangos ffilm(iau) yn berthnasol pan fydd y ffilm(iau) yn cael eu harddangos o fewn ardal weinyddol Cyngor Sir Ceredigion yn unig, ac ni fydd yn effeithio ar yr awdurdodiad neu'r argymhellion o fewn unrhyw Sir arall.

2.7 Unwaith bod ffilm wedi'i hawdurdodi gan yr Awdurdod Trwyddedu, bydd wedi'i hawdurdodi ar gyfer arddangosiad neu ŵyl arbennig yn unig, yn amodol ar yr argymhellion a osodwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu (oni wneir cais pellach i'w hailddosbarthu). Bydd manylion yr awdurdodiad, gan gynnwys unrhyw argymhellion, ar gael oddi wrth yr Adran Drwyddedu, a byddant wedi'u rhestru ar wefan y Cyngor.

2.8 Mae unrhyw awdurdodiad a roir gan Gyngor Sir Ceredigion wedi'i gyfyngu'n llwyr i'r awdurdodiad o fewn Cyngor Sir Ceredigion, a thybir bod pob cydsyniad a thrwydded trydydd parti perthnasol mewn perthynas ag unrhyw hawlfraint, gwybodaeth gyfrinachol neu hawliau eiddo deallusol arall wedi'u sicrhau.

2.9 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried pob awdurdodiad yn ôl ei deilyngdod ei hun, a gall osod argymhellion ychwanegol a mwy penodol os yw o'r farn bod angen hynny er mwyn cydymffurfio â'r amcan trwyddedu Amddiffyn Plant Rhag Niwed. Mae Argymhellion Enghreifftiol y gellid eu cynnwys i'w gweld yn Atodiad 1.

2.10 Pan fydd Awdurdod Trwyddedu'n awdurdodi arddangos deunydd annosbarthedig, bydd yn gofyn am addewid oddi wrth yr ymgeisydd na fydd unrhyw ddeunydd a arddangosir yn mynd yn groes i'r dehongliad presennol o Ddeddf Cyhoeddiadau Anweddus 1959, Deddf Hawlfraint Dyluniadau a

Phatentau 1988 neu unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall, ac nad yw wedi'i greu trwy gyflawni trosedd. Hefyd, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n atebol am unrhyw ddeunydd sydd wedi'i greu trwy gyflawni trosedd. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau nad yw unrhyw ffilm neu raghysbyseb yn torri'r gyfraith.

2.11 Pan fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n penderfynu gwrthod awdurdodi ffilm(iau), darperir rhesymau clir a chryno.

## 3 Y DREFN GYDA CHEISIADAU I AWDURDODI AILDDOSBARTHIAD, I GYMERADWYO FFILMIAU SYDD EISOES WEDI'U DOSBARTHU GAN Y BBFC

3.1 Bydd ceisiadau i awdurdodi ffilmiau sydd eisoes wedi'u dosbarthu gan y BBFC'n cael eu cyfeirio i, a'u pennu gan y Tîm Trwyddedu ar ran yr Awdurdod Trwyddedu. Dylid cyflwyno ceisiadau trwy ddefnyddio ffurflen gais yr Awdurdod Trwyddedu, sydd ar gael oddi wrth y Tîm Trwyddedu, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA.

3.2 Yn unol ag Atodiad D Rhan 5 o'r Arweiniad Cenedlaethol, dylid anfon y ffilm(iau) gyda'r ceisiadau bob tro lle bo modd, ar fformat DVD neu fformat digidol arall a gytunwyd, i osgoi oedi. Yr ymgeisydd fydd yn talu'r gost. Os nad yw hyn yn bosibl, yna gwneir trefniadau i bennu lleoliad addas i wylio'r ffilm. Bydd hyn yn caniatáu i'r Tîm Trwyddedu wylio ac awdurdodi'r ffilm(iau) fel bod modd i'r deiliad trwydded gadw at unrhyw argymhellion a wneir gan yr Awdurdod Trwyddedu mewn perthynas â chyfyngiadau oedran. Ymhob achos, dylid gwneud y cais trwy gyflwyno ffurflen gais yr Awdurdod Trwyddedu o leiaf 28 diwrnod cyn y bwriedir dangos y ffilm.

3.3 Pan fydd unigolyn neu sefydliad nad yw'n gysylltiedig â'r ffilm(iau) yn gofyn am ail-ddosbarthu ffilm sydd eisoes wedi'i dosbarthu gan y BBFC, ni ddisgwylir iddynt ddarparu copi o'r ffilm(iau). Yna bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n gwneud trefniadau addas i wylio'r ffilm. Derbynnir hefyd, o dan amgylchiadau o'r fath, na fydd modd rhoi **28 diwrnod** o rybudd efallai cyn y bwriedir dangos y ffilm.

3.4 Rhaid cynnwys rhesymau manwl gyda phob cais. Delir â phob cais cyn gynted â phosib, oherwydd cydnabyddir bod ffilmiau fel arfer yn cael eu dangos mewn sinemâu am gyfnod cymharol fyr.

3.5 Yna bydd Swyddog Trwyddedu'n gwylio'r ffilm gyfan ac yn ei hasesu yn erbyn canllawiau'r BBFC a'r Arweiniad Cenedlaethol lle bo'n berthnasol. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n cyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad mewn perthynas â'r awdurdodiad o fewn 5 diwrnod gwaith o ddyddiad y gwylio. Yna bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n hysbysu'r ymgeisydd a'r deiliad trwydded yn swyddogol ynghylch unrhyw argymhelliad/argymhellion o ran cyfyngu mynediad i blant a phobl ifanc i'r ffilm(iau).

3.6 Yn achos safleoedd trwyddedig, rhaid i'r ceisiadau fod yn berthnasol i'r amcan trwyddedu Amddiffyn Plant Rhag Niwed ac ni ddylent fod yn wamal, yn flinderus neu'n ailadroddus. Gall y ceisiadau hefyd fod yn berthnasol i'r

amcan trwyddedu Atal Troseddau ac Anhrefn, ond dim ond mewn perthynas â mynd yn groes i'r dehongliad presennol o Ddeddf Cyhoeddiadau Anweddus 1959 neu unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall.

3.7 Yn unol ag Atodiad D Rhan 5 o'r Arweiniad Cenedlaethol, pan fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n argymell bod ffilm(iau) yn dod o fewn categori cyfyngiad oedran, ni chaniateir mynediad i unrhyw berson dan yr oedran a nodir. Pan fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n argymell bod ffilm(iau) yn dod o fewn categori sy'n gofyn bod unrhyw berson dan oedran penodol yng nghwmni oedolyn, ni chaniateir mynediad i unrhyw berson dan yr oedran a nodir oni bai ei fod yng nghwmni oedolyn.

3.8 Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd gofyn i ddeiliad y drwydded, neu yn achos safle di-drwydded, y sawl sy'n cynnal y digwyddiad, i arddangos, mewn man amlwg, hysbysiad sy'n nodi'n glir y cyfyngiadau oedran a'r gofynion perthnasol. O ran geiriad Hysbysiadau o'r fath, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi ystyriaeth i'r Arweiniad Cenedlaethol, e.e.:

"NI CHANIATEIR MYNEDIAD I BERSONAU O DAN *[RHODDER YR OEDRAN PRIODOL I MEWN]* OED I UNRHYW RAN O'R RHAGLEN"

Neu

"NI CHANIATEIR MYNEDIAD I BERSONAU O DAN *[RHODDER YR OEDRAN PRIODOL I MEWN*] I UNRHYW RAN O'R RHAGLEN ONI BAI EU BOD YNG NGHWMNI OEDOLYN"

## 4 Y DREFN AR GYFER AWDURDODI FFILMIAU NAD YDYNT WEDI'U DOSBARTHU GAN Y BBFC NA CHYNGOR SIR CEREDIGION

4.1 Bydd ceisiadau i awdurdodi ffilmiau'n cael eu hystyried gan swyddogion dan bwerau datganoledig yn y lle cyntaf. Os derbynnir êêl yna bydd yn cael ei ddwyn i sylw'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn y lle cyntaf i'w ystyried ac yna i Banel o Aelodau Etholedig os yw'r ymgeisydd yn parhau i fod yn anfodlon.

4.2 Dylid cyflwyno ceisiadau gan ddefnyddio ffurflen gais yr Awdurdod Trwyddedu o leiaf **28 diwrnod** cyn y bwriedir dangos y ffilm. Os ceir llai na 28 diwrnod o rybudd, ni ystyrir unrhyw gais i adolygu penderfyniad swyddog mewn perthynas â'r cais. Mae ffurflenni cais ar gael oddi wrth y Tîm Trwyddedu, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA.

4.3 Dylai cais i awdurdodi ffilm gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

(a) pwy wnaeth y ffilm;
(b) unrhyw argymhelliad a wnaed gan y sawl a wnaeth y ffilm ynghylch cyfyngiadau oedran y gynulleidfa y bwriadwyd y ffilm ar ei chyfer;
(c) unrhyw ddosbarthiad a wnaed gan gorff dosbarthu cyfredol, oddi mewn neu tu allan i'r Deyrnas Unedig;

(d) crynodeb o’r deunydd yn y ffilm a allai, ym marn y sawl sy’n ei harddangos, fod yn berthnasol o ran cyfyngu oedran y gynulleidfa a fydd yn gwylio’r ffilm. Pan fydd yr ymgeisydd yn gofyn am awdurdodiad i arddangos y ffilm i bobl 18 oed a throsodd yn unig, ni fydd angen crynodeb manwl;

(e) os yn wybyddus, safle rhyngrwyd cyfreithlon a chyfreithiol lle mae’r ffilm, neu ran o’r ffilm, ar gael i’w gwylio’n ddi-dâl;

(f) unrhyw gynigion mewn perthynas â’r cyfyngiadau oedran mae’r ymgeisydd yn bwriadu’u gosod o ran gwylio’r ffilm; a

(g) manylion am y modd y bwriedir gorfodi’r cyfyngiadau oedran.

(h) y ffi bresennol fel y’i hamlinellir yn rhestr Ffioedd a Thaliadau’r Cyngor sydd ar gael ar ei wefan.

4.4 Fodd bynnag, yn unol ag Atodiad D Rhan 5 o’r Arweiniad Cenedlaethol, gall y Swyddog Trwyddedu, yn ôl ei ddisgresiwn, ofyn am gopi o’r ffilm(iau) ar fformat DVD neu fformat digidol arall a gytunwyd, a’r ymgeisydd fydd yn talu’r gost. Os nad yw hyn yn bosibl, gall y Swyddog Trwyddedu gytuno i drefnu lleoliad addas i wylio’r ffilm(iau).

.

4.5 Bydd y Swyddog Trwyddedu, wrth wylio’r ffilm(iau) yn rhoi ystyriaeth i Ganllawiau ac Arweiniad Cenedlaethol y BBFC, a bydd yn cyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad mewn perthynas â’r cais o fewn 5 diwrnod gwaith o’r dyddiad gwylio.

4.6 Wrth ystyried unrhyw geisiadau o’r fath, bydd y Swyddog Trwyddedu’n rhoi ystyriaeth arbennig i’r amcan trwyddedu Amddiffyn Plant Rhag Niwed.

4.7 Yn unol ag Atodiad D Rhan 5 o’r arweiniad Cenedlaethol, pan fydd yr Awdurdod Trwyddedu’n argymell bod ffilm(iau) yn dod o fewn categori cyfyngiad oedran, ni chaniateir mynediad i unrhyw berson dan yr oedran a nodir. Pan fydd yr Awdurdod Trwyddedu’n argymell bod ffilm(iau) yn dod o fewn categori sy’n gofyn bod unrhyw berson dan oedran penodol yng nghwmni oedolyn, ni chaniateir mynediad i unrhyw berson dan yr oedran a nodir oni bai ei fod yng nghwmni oedolyn.

4.8 Mewn amgylchiadau o’r fath, bydd gofyn i’r deiliad trwydded arddangos, mewn man amlwg, hysbysiad sy’n nodi’n glir y cyfyngiadau oedran a’r gofynion perthnasol. O ran geiriad Hysbysiadau o’r fath, bydd yr Awdurdod Trwyddedu’n mabwysiadu’r enghraifft a osodir yn yr Arweiniad Cenedlaethol:

“NI CHANIATEIR MYNEDIAD I BERSONAU O DAN *[RHODDER YR OEDRAN PRIODOL I MEWN]* OED I UNRHYW RAN O’R RHAGLEN”

Neu

“NI CHANIATEIR MYNEDIAD I BERSONAU O DAN *[RHODDER YR OEDRAN PRIODOL I MEWN*] I UNRHYW RAN O’R RHAGLEN ONI BAI EU BOD YNG NGHWMNI OEDOLYN”

4.9 Er mwyn sicrhau bod yr amcanion trwyddedu Amddiffyn Plant Rhag Niwed ac Atal Troseddau ac Anhrefn yn cael eu hyrwyddo, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n hysbysu'r deiliad trwydded a'r ymgeisydd yn swyddogol ynghylch unrhyw argymhelliad/argymhellion o ran cyfyngu mynediad i blant i'r ffilm(iau). Gall hyn hefyd gynnwys unrhyw hysbysiadau priodol sydd angen eu harddangos gan y deiliad trwydded y tu mewn a'r tu allan i'r safle. Disgwylir bod y safle lle bydd y ffilm yn cael ei harddangos yn cydymffurfio â'r argymhellion hyn.

4.10 Pan wneir ceisiadau i'r Awdurdod Trwyddedu i arddangos ffilm(iau) i bersonau 18 a throsodd, bydd gofyn i'r deiliad trwydded i arddangos, mewn man amlwg, hysbysiad sy'n nodi'n glir bod yr Awdurdod Trwyddedu wedi awdurdodi'r ffilm(iau) ond nad yw wedi'i/u gwylio. Dylid cynnwys y datganiad hwn mewn unrhyw ddeunydd hyrwyddo ac ar unrhyw wefan berthnasol, gan gynnwys gwefan y deiliad trwydded lle bo'n berthnasol.

4.11 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cydnabod yr egwyddor y dylai oedolion fod yn rhydd i ddewis eu hadloniant eu hunain, ac ni fyddant fel arfer yn diystyru'r egwyddor honno – am nad yw ceisiadau o'r fath yn cael eu gwrthod fel arfer. Fodd bynnag, ymhob achos, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl bod yr ymgeisydd yn dilyn Canllawiau'r BBFC gyda ffilmiau 18 ac R18.

4.12 Oni bai bod llai na 28 diwrnod o rybudd o'r cais wedi'i roi, bydd gan yr ymgeisydd yr hawl i ofyn i'r Is-bwyllgor Trwyddedu i adolygu penderfyniad y Swyddog Trwyddedu.

## 5 ADRAN 20 DEDDF TRWYDDEDU 2003: ARDDANGOS FFILMIAU AR SAFLEOEDD TRWYDDEDIG

5.1 Mae pob safle sydd â chaniatâd i ddangos ffilmiau'n ymrwymedig i'r amodau gorfodol canlynol:

*1. Pan fydd Trwydded Safle neu Dystysgrif Safle Clwb yn awdurdodi arddangos ffilmiau, rhaid i'r drwydded neu'r dystysgrif gynnwys amod ynghylch cyfyngu mynediad i blant i wylio unrhyw ffilm a ddangosir yn unol â'r paragraffau hyn.*

*2. Pan fydd corff dosbarthu ffilmiau wedi'i nodi yn y drwydded neu'r dystysgrif, oni bai bod paragraff 3 (b) isod yn berthnasol, rhaid cyfyngu'r mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan y corff hwnnw.*

*3. Pan:*

*(a) na fydd y corff dosbarthu wedi'i nodi yn y Drwydded neu'r Dystysgrif; neu*

*(b) bod yr Awdurdod Trwyddedu wedi hysbysu deiliad y Drwydded neu'r Clwb sy'n meddu ar y Dystysgrif bod y paragraff hwn yn berthnasol i'r ffilm dan sylw, rhaid cyfyngu ar y mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan yr Awdurdod Trwyddedu.*

4. *Yn y paragraffau hyn mae "plant" yn golygu personau dan 18 oed ac mae "corff dosbarthu ffilmiau" yn golygu'r person neu'r personau a ddynodwyd fel yr*

*awdurdod dan Adran 4 o Ddeddf Recordiadau Fideo 1984 (awdurdod pennu addasrwydd gwaith fideo ar gyfer dosbarthiad).*

## 6 EITHRIADAU MEWN PERTHYNAS Â DANGOS FFILMIAU

6.1 Mae darparu arddangosiad o ffilm(iau) wedi'i eithrio rhag rheoliadau Deddf Trwyddedu 2003 os ydyw:

UN AI:

Yn cynnwys neu'n ffurfio rhan o arddangosfa a ddarperir at unrhyw ddiben mewn amgueddfa neu oriel gelf (nid yw Deddf Trwyddedu 2003 yn diffinio amgueddfa neu oriel gelf, felly defnyddir yr ystyr cyffredin)

NEU:

Os mai ei unig bwrpas yw:

(a) arddangos cynnyrch o unrhyw fath
b) hysbysebu unrhyw nwyddau neu wasanaethau (ac eithrio hysbysebu ffilmiau), neu
(a) darparu gwybodaeth, addysg neu gyfarwyddyd

**Atodiad 1**

**Argymhellion enghreifftiol mewn perthynas ag awdurdodi ffilmiau i'w harddangos:**

a. Yr Argymhelliad o ran Oedran e.e.:

   "NI CHANIATEIR MYNEDIAD I BERSONAU O DAN *[RHODDER YR OEDRAN PRIODOL I MEWN]* OED I UNRHYW RAN O'R RHAGLEN"

   Neu

   "NI CHANIATEIR MYNEDIAD I BERSONAU O DAN *[RHODDER YR OEDRAN PRIODOL I MEWN*] I UNRHYW RAN O'R RHAGLEN ONI BAI EU BOD YNG NGHWMNI OEDOLYN"

b. Bod deiliad y drwydded safle neu dystysgrif safle clwb yn mabwysiadu polisi a threfn rheoli addas i fonitro a gorfodi'r argymhellion o ran cyfyngiadau oedran.

c. Bod deiliad y drwydded safle neu dystysgrif safle clwb yn arddangos, mewn man amlwg, hysbysiad sy'n nodi'n glir bod yr Awdurdod Trwyddedu wedi awdurdodi'r ffilm(iau) i'w gwylio gan bobl [RHOWCH YR OEDRAN PRIODOL] oed a throsodd, ond nad yw o angenrheidrwydd wedi gwylio'r ffilm.

d. Y dylid cynnwys y cyfyngiad oedran ar gyfer arddangos y ffilm yn unrhyw ddeunydd hyrwyddo ac ar unrhyw wefan berthnasol, gan gynnwys gwefan y deiliad trwydded neu'r arddangoswr lle bo'n berthnasol.